

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 28 HYDREF 2016

Yn Cynghorydd Parry(Caedeirydd)  
bressenol: Y Cynghorwyr Kelloway a/ac Murphy

### 18 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

### 19 : CAIS AM GYMERADWYO TRWYDDED SAFLE - MISS JONES, MERTHYR ROAD

Ymgeiswyr: Mrs Naomi Gropetis – Perchennog Miss Jones  
Ian Fowler – Rheolwr Gweithrediadau Miss Jones

Hefyd: Y Cynghorydd Ben Thomas - y Cynghorydd Ward dros Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais

Gwylwr: Janice Hughes Cadeirydd PACT Yr Eglwys Newydd

#### Y Cais

Cais am Drwydded Safle – Derbyniwyd Grant gan Mrs Naomi Gropetis mewn perthynas â Miss Jones, 25-29 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DA.

Roedd yr ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

Dydd Sul i ddydd Iau: 9:00 tan 23:00  
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 9:00 tan 00:30  
Nos Galan: 9:00 tan 04:00

Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw (dan do):

O ddydd Llun i ddydd Sul: 09:00 tan 23:00  
Nos Galan: 09:00 tan 04:00

Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do):

Dydd Sul i ddydd Iau: 9:00 tan 23:00  
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 9:00 tan 00:30  
Nos Galan: 9:00 tan 04:00

Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (y tu allan):

O ddydd Llun i ddydd Sul: 09:00 tan 21:00

Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (y tu mewn a'r tu allan):

Dydd Sul i ddydd Iau: 23:00 tan 00:00

Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 23:00 tan 01:00

Nos Galan: 23:00 tan 04:00

Ar ddechrau'r cyfarfod, dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes dim newidiadau wedi bod i'r cais gwreiddiol am drwydded, nad yw, o ganlyniad i wall gweinyddol, wedi'i drosglwyddo o fewn y terfyn amser gofynnol. Nid oedd dim sylwadau gan awdurdodau cyfrifol ond mae'r heddlu wedi awgrymu amodau pellach fel uwchraddio diogelwch y drysau, y mae'r ymgeisydd wedi'u derbyn. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd camerâu corff i staff y drysau ac mae'r system TCC wedi'i huwchraddio.

Ystyriodd yr Aelodau'r Adroddiad Llygredd Sŵn wedi'i gyflwyno gan CDM ar ran Miss Jones.

Dywedodd y Cynghorydd Ben Thomas wrth yr Aelodau fod Cynghorwyr ei ward wedi mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godwyd gan drigolion a'i fod yn hapus i gefnogi'r cais gan ei fod yn fodlon y cydymffurfir ag unrhyw bryderon.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, esboniodd Janice Hughes ei bod wedi ystyried bod diffyg cyfathrebu wedi bod ac y dylai trigolion fod wedi sôn am unrhyw bryderon yn uniongyrchol i Miss Jones yn hytrach nag mewn cyfarfod PACT yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:** - Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu, cymeradwyodd yr is-bwyllgor y cais, yn amodol ar newid gramadegol bach i'r nodau trwyddedu gwreiddiol dan yr adran 'Atal niwsans cyhoeddus'.

20 : CAIS AM GYMERADWYO TRWYDDED BERSONOL

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod yn y dyfodol.